Cofnodion Cyfarfod **Cyngor Cymuned Penbryn** a gynhaliwyd nos Fawrth, Mai 6ed 2025 yn Neuadd Goffa Penbryn/*Minutes of* **Penbryn Community Council** *Meeting held on Tuesday, May 6th 2025 at Penbryn Memorial Hall*

Yn bresennol/*Present* – Cynghorwyr/*Councillors* Walwyn Jones, Caerwyn Owen, William Anwyl, Gareth Evans, Teifi Davies, Melva Phillips, Gwyn James, Delfryn Owens, Jonathan Rees, Elen Mathias

**1 <u>Ymddiheuriadau/Apologies</u>**

Cynghorydd/*Councillor* Barri Davies

**2 <u>Datgelu Buddiannau Personol/Disclosure of Personal Interests</u>**

DIM BYD PERTHNASOL/*NO RELEVANCE*

**3 <u>Materion Personol/Personal Matters</u>**

Cydymdeimlwyd ag Elen ar golli modryb yn ddiweddar tra bod William wedi mynegi ei fwriad i symud o'r fro hon yn y dyfodol agos.
*Members expressed their condolences to Elen after having recently lost an aunt, while William declared his intention to move away to pastures new in the near future.*

**4 <u>Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/Annual General Meeting</u>**

Dewis Swyddogion am y Flwyddyn 2025/26/*Electing Officials for the year 2025/26*

i) Adolygiad o'r Flwyddyn/*Review of the Year*
Mynegodd Jonathan foddhad a bodlonrwydd ar y modd y datblygodd y flwyddyn gyda'r aelodau yn cyd-dynnu'n dda a'r cyfathrebu cyffredinol trwy'r Grwp WhatsApp yn fuddiol. Diolchodd i'r aelodau oll am eu ffyddlondeb trwy gydol y flwyddyn.
*Jonathan expressed great satisfaction with the way the year evolved with the members' co-operation. The communication between the members via the WhatsApp group had proved to be a success and he thanked all the members for their support throughout the year.*

ii) Ethol Cadeirydd/*Elect a Chairperson*
Etholwyd Melva yn Gadeirydd yn unfrydol. Cynigiwyd gan Teifi a'i eilio gan Gareth.
*Melva duly elected to be Chairperson. Motioned by Teifi and seconded by Gareth.*

iii) Ethol Is-Gadeirydd/*Elect a Vice-Chairperson*
Etholwyd Gareth yn Is-Gadeirydd. Walwyn oedd y cynigydd a'i eilio gan Elen.
*Gareth duly elected to be Vice-Chairperson. Proposed by Walwyn and seconded by Elen.*

**5 <u>Cofnodion Cyfarfod Misol/Monthly Meeting Minutes – 1/4/25</u>**

Cynigiwyd gan Caerwyn eu bod yn gywir a'i eilio gan Delfryn.
*Proposed to be correct by Caerwyn and seconded by Delfryn.*

**6 <u>Materion yn Codi/Matters Arising</u>**

i) Gohebiaeth yr Asiantaeth Ffyrdd/*Roads Agency Correspondence*
Derbyniwyd ymateb oddi wrth yr Asiantaeth uchod yn dilyn ein gohebiaeth flaenorol. Er bod y llythyr yn cyfeirio at bentref Sarnau arall ger y Bala, maent wedi cydnabod y digwyddiad a ysgogodd y llythyr yn wreiddiol, ac yn disgwyl adroddiad yr Heddlu.

*A response was received from the Agency following our previous correspondence. Even though the letter referred to another village called Sarnau near Bala, they have acknowledged the incident that initiated the letter, and are waiting for the Police report on the accident.*

ii) Adroddiad Clic/*Clic Report*
Derbyniwyd ymateb yn dilyn ein hymholiad ynghylch cyflwr yr heol ger Maes Carafanau Woodlands.
*A response was received from Clic following our enquiries regarding the state of the road nearby Woodlands Caravan Park.*

iii) Cyfarfod Trafod Enwau Lleoedd/*Meeting to Discuss Local Place Names*
Yn dilyn y diddordeb a ddangoswyd wedi digwyddiad yn y Neuadd Goffa yn ddiweddar, cytunodd y Cyngor i gefnogi ymdrech i gynnal noson debyg arall. Cytunodd Teifi i gysylltu ag Alison Vaughan Jones, tra bod Elen wedi eilio cynnig gan Teifi, ein bod fel Cyngor yn talu am hysbyseb i'r digwyddiad yn Y Gambo. Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol.
*Following the interest shown after the event held at the Memorial Hall recently, the Council agreed to support efforts to hold a similar evening in the near future. Teifi agreed to contact Alison Vaughan Jones, while Elen seconded Teifi's motion, that the Council could pay for an advertisement in Y Gambo to promote the event. It was unanimously agreed by the members.*

**7 <u>Cyllid/Finance</u>**

i) Balans/*Balance*

| | |
|---|---|
| Balans Blaenorol/*Previous Balance* | £11411.10 |
| | |
| Taliadau/*Payments* | |
| Costau Bancio/*Banking Charges* | £5.25 |
| | |
| Derbyniadau/*Received* | |
| Praesept Ceredigion/*Precept Ceredigion* | £5000.00 |
| | |
| Balans Newydd/*New Balance* | £16405.85 |

ii) Taliadau i'w Cymeradwyo/*Payments to be Approved*
Aelodaeth Un Llais Cymru/*One Voice Wales Membership* £275.00
Cynigiwyd gan Jonathan a'i eilio gan Gwyn
*Proposed by Jonathan and seconded by Gwyn.*

iii) Trefniadau HMRC/*HMRC Arrangements*
Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi cwblhau'r broses o wireddu goblygiadau'r Cyngor yng nghyswllt cyflogi Clerc. Gwnaed hwn trwy gymorth DMB Davies yn Aberteifi a byddwn yn parhau i weinyddu hyn trwy gyfrwng DMBD fel rhan o'n dealltwriaeth gyffredinol gyda hwy.
*The Clerk confirmed that he had completed all the necessary arrangements regarding employing a Clerk. This was done with the assistance of DMBD at Cardigan and we will continue to administer this scheme via DMBD, as part of our wider understanding with the company.*

iv) Ad-daliad TAW/*VAT Rebate*

Gwedd arall ar ein dealltwriaeth gyda DMBD fydd y byddwn yn medru hawlio ad-daliad TAW trwy gyflwyno datganiad chwarterol iddynt am ein taliadau uniongyrchol yn ystod y cyfnod hwnnw. Y drefn fydd y byddant hwy yn cysylltu â HMRC ar ein D
*Another aspect of our understanding with DMBD is that we will be able to claim VAT rebate by submitting quarterly statements regarding our direct payments during that period. They will contact HMRC on our behalf and reimburse us by paying any rebate directly to our bank account.*

**8 Cynllunio/Planning**

DIM CEISIADAU/*NO APPLICATIONS*

**9 Gwefan y Cyngor/Council Website**

i) Adfer y Wefan

Dywedodd y Clerc ei fod, gyda chefnogaeth y Cadeirydd, wedi bod yn siarad â Graham Jones ynghylch adfer gwefan y Cyngor. Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio'r wefan yn helaethach yn y dyfodol. Cytunodd Graham fod digon o ddeunydd ganddo bellach i'w hatgyfodi, a thros y mis nesaf gwelwn fwy a mwy o ddeunydd yn cael ei arddangos. Gofynnwyd am ganiatâd yr aelodau i'w henwau gael eu rhoi ar y wefan er sylw'r cyhoedd. Cydsyniodd yr holl aelodau a chytunodd y Clerc i gysylltu â Graham ar y mater hwn. Ychwanegodd Jonathan ei fod yn awyddus i ofyn i Aled Evans baratoi ffilmiau byrion o'r ardal o'r awyr. Cydsyniodd yr holl aelodau.
*The Clerk noted, with the Chair's support, that he had spoken to Graham Jones regarding restoring the Council's website. It is essential that we make far greater use of our website in the future. Graham agreed that he had sufficient data to commence the work, and over the next month we shall see a gradual increase in the information displayed. The Clerk asked for members' permission for their names to be included on the website. It was unanimously agreed and the Clerk agreed to provide Graham with this information. Jonathan added that he would like to invite Aled Evans to prepare short aerial films of the area for the website. It was unanimously agreed.*

**10**

i) Hyfforddiant Aelodau/*Members' Training*

Cytunodd y canlynol i fynychu sesiwn hyfforddiant
*The following agreed to attend a training session*

| | | |
|---|---|---|
| 19/5/25 | Introduction to Community Engagement | Jonathan Rees |
| 21/5/25 | New Councillor Induction | Elen Mathias |

**11 Gohebiaeth/Correspondence**

DIM GOHEBIAETH/*NO CORRESPONDENCE*

**12 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business**

i) Toiledau Tresaith

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Gyngor Ceredigion yn gofyn am benderfyniad terfynol ynghylch cynnal a chadw toiledau cyhoeddus Tresaith. Gohebodd y cyngor hwn â'r Cyngor Sir fisoedd yn ôl yn gofyn am wybodaeth bellach. Yn yr ohebiaeth

ddiweddaraf gofynnwyd am ateb terfynol ymhen tair wythnos. Yn anorfod, cafwyd ystod eang o safbwyntiau mewn trafodaeth iach a didwyll. Ar y naill law, dywedwyd bod angen cadw rhyw ddarpariaeth, ond na fedrwn o bosibl ei fforddio yn y tymor hir. Yr oedd rhai eraill yn fodlon ystyried peidio â thalu, gan drafod syniadiau amgen gyda'r Cyngor Sir yn hwyrach. Y farn gyffredinol, yn bendant, oedd nad oedd hyn yn caniatau digon o amser i ddod i benderfyniad, y naill ffordd neu'r llall. Nodwyd hefyd y bydd angen cynnwys y gymuned gyfan yn y penderfyniad terfynol. Cynigiwyd bod cynrychiolaeth o Bwyllgor Lles Tresaith yn cael gwahoddiad i ymuno â chyfarfod llawn y Cyngor hwn a'i dderbyn yn unfrydol. Daethpwyd i'r casgliad y dylid gohebu â'r Cyngor Sir yn egluro ein penbleth a'n pryderon sy'n egluro paham na ellwn ddod i benderfyniad terfynol ar hyn o bryd.

*Correspondence was received from Ceredigion Council regarding the future toilet provision at Tresaith. Penbryn Council had corresponded with Ceredigion many months ago asking for further information. In the latest correspondence a final decision was asked for within 3 weeks. Inevitably, a wide range of opinions was aired. On the one hand, it was said some provision would be needed, but that we wouldn't necessarily be able to afford it in the long run. Others on the other hand were willing to discuss not paying for the maintenance, but discussing alternative options in the future. One way or the other, it was agreed that we weren't in a position to make a final decision now. It was stressed that the whole community needed to be involved in the process. It was proposed that representatives from Tresith Welfare Committee be invited to attend a council meeting to discuss the matter. It was unanimously agreed. It was agreed that we correspond with Ceredigion Council in order to clarify our position and inform them of our fears.*

ii) Bois y Mowo

Mae Delfryn wedi rhoi sel bendith iddynt ddechrau'r gwaith o gynnal y llwybr gyferbyn â'r Neuadd hon.

*Delfryn has given Bois y Mowo authorisation to start maintenance work on the footpath opposite this Hall.*

**13 <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf/Date of Next Meeting</u>**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Mehefin 3ydd 2025 am 7.30 y.h.

*The next meeting will be held on Tuesday, June 3rd 2025 at 7.30 p.m.*